# Y Nadolig



Tŷ tawel.
Teledu tawel.
Radio tawel.
Plant tawel.
Pawb yn cysgu.
Ond yna ...



"Ipiiiiiiiiiiiiiiiiiii
Mae'n Nadolig ... codwch!"
Tŷ swnllyd, hapus
Plant cyffrous.

"Dewch i agor yr anrhegion!"
Papur lapio
coch a gwyrdd
fel mynydd ar y llawr.

"Cinio'n barod!"
Arogl cinio hyfryd
a'r bwrdd yn llawn
twrci,
moron,
pys,
tatws rhost poeth a blasus.
Bendigedig!











"Beth am chwarae gemau?"
Cownteri lliw a dis mawr, coch
a llawer o chwerthin hapus!

"Mae'n amser gwely!"
"O, na! Dw i ddim yn barod!
Beth am y llyfr newydd ...
... a'r gêm newydd ...
... a'r creonau newydd?"

"Yfory!"

Tom Jones